# *"MAGICK - Y DEWIN Brenhinol Olaf"*



## *Anturiaethau rhyfeddol Dr Dee a'i ffrind dychmygol, Madoc, Tywysog Cymru*

Mae cast SWICA yn cynnwys 50 o berfformwyr carnifal, syrcas a stryd, (pobl broffesiynol a pherfformwyr o'r gymuned). Sioe 30 munud wirioneddol ryfeddol ydyw hi, a fydd yn syfrdanu'ch cynulleidfaoedd gydag ymddyrchafael, hud a lledrith !

Cewch eich syfrdanu gan **DR JOHN DEE** (y perfformiwr stryd, Dave Id) Fe yw athronydd, gwyddonydd ac alcemydd mwyaf Oes Elisabeth. Mae Dr Dee, druan, yn cael ei dwyllo gan ei elyn cythreulig, y cafflwr a'r clirweledydd, Edward Kelley (Idrissa Camara, sy'n ddrymiwr ac yn ddawnsiwr o Orllewin Affrica).

Daw Dr Dee, yn ysbïwr gwerthfawr yn llys Elisabeth I. Mae'n casglu gwybodaeth gyfrinachol drwy gynnal sesiynau yn syllu ar y sêr i ddarogan digwyddiadau pwysig yn nheyrnasiad y Frenhines, gan gynnwys dyddiad ei choroni.

Drwy ddefnyddio'r llofnod **'007'** mewn negeseuon cudd i'r Frenhines, mae Dr John Dee yn ysbrydoli James Bond, y cudd-weithredwr gorau erioed !


Mae Dr Dee yn sefydlu'r Ymerodraeth Brydeinig ar sail **celwydd noeth** (ac achau Cymreig y Frenhines). Dyma ddarganfyddiad y Byd Newydd gan Madoc, Tywysog Cymru ym 1170, ymhell cyn Columbus.

Yn y pen draw, mae Dr Dee yn cael ei orfodi gan Kelley i gynnal seansau gwyddonol, neu 'MAGICK'. Drwy ddablo gyda'r goruwchnaturiol a chyfnewid gwragedd, mae Dr Dee yn dinistrio ei enw da o fewn y llys.

Byddwch yn gweld gwisgoedd carnifal lliwgar, caneuon, dawnsfeydd, ystudfachwyr sy'n neidio tin-dros-ben, baneri wedi'u coreograffu a llwyth o gellweiriau dwl am James Bond - heb anghofio ychydig bach o losgi gwrachod! I goroni'r cyfan, mae'r sioe yn cael ei chyfeilio gan sgôr gerddorol fyw.

Sioe deuluol 30 munud o hyd, yn rhad ac am ddim yw hon, gyda chast seingar a syfrdanol sy'n cynnwys dewiniaid dyfeisgar, ysbrydion ysbrydegol, anturiaethwyr arloesol, a rhyfelwyr Indiaidd Cymreig !

MAE RHYWBETH AT DANT BAWB: O **A**crobateg **i Z**orbio!



007
yw
DR. DEE

# *Amserlen Taith 2011*

Caerdydd: **Noson Garnifal yng Nghanolfan Celfyddydau Chapter**
Nos Fawrth, 5ed Gorffennaf (6yh.)

Caerdydd: **Gŵyl Blysh, tu allan i Ganolfan y Mileniwm, Bae Caerdydd**
Dydd Sul, 24ain Gorffennaf (3yh)

Y Barri: **Gŵyl "Central Park Live", Parc Canol Y Barri**
Dydd Sul, 7fed Awst, (canol dydd a 3yh)

Wrecsam: **Blwyddyn Diwylliant Wrecsam, Llwyn Isaf, Wrecsam**
Dydd Sadwrn, 20fed Awst (canol dydd a 3yh)

Casnewydd: **Gŵyl Big Splash, Sgwâr John Frost, Casnewydd**
Dydd Sadwrn, 8fed Hydref (3yh)

Casnewydd: **Gŵyl Big Splash, Sgwâr John Frost, Casnewydd**
Dydd Sul, 9fed Hydref, (1.15yh)

*"Lung-punchingly passionate … mesmerizing to behold."*
BUZZ MAGAZINE